**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

8 Gorffennaf 2022

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Banc Seilwaith y DU

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd gennym ddydd Llun 4 Gorffennaf 2022, gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU (y Bil).

I gynorthwyo gwaith craffu'r Pwyllgor ac i lywio ein hadroddiad ar y memorandwm, mae nifer o faterion yr ydym yn dymuno eu codi gyda chi. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'n cwestiynau erbyn 5 Awst.

1. Ar 13 Mai 2022, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ysgrifenedig ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Yn y datganiad hwnnw, dywedodd: "Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 23 Mawrth, rwyf wedi fy nghalonogi gan y ffaith y cafwyd ymgysylltu cadarnhaol rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar nifer o Filiau yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU." Mae Bil Banc Seilwaith y DU yn un o'r 12 o Filiau y tynnir sylw atynt yn y datganiad. A allwch chi gadarnhau bod y Bil wedi bod yn destun trafodaethau rynglywodraethol cyn cael ei gyflwyno yn Senedd y DU?

2. A rannodd Llywodraeth y DU y Bil â Llywodraeth Cymru ar ffurf drafft? Os felly, pryd?

3. Os na wnaeth Llywodraeth y DU rannu'r Bil â chi ar ffurf drafft, o ystyried bod Banc Seilwaith y DU wedi bod yn gweithredu ar sail anstatudol ers mis Mehefin 2021, ac o ystyried y wybodaeth yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i chael gan Lywodraeth y DU ynghylch ei rhaglen ddeddfwriaethol, a wnaeth Llywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i geisio dylanwadu'n uniongyrchol ar y broses o ddrafftio'r Bil?

4. Yn y memorandwm, rydych yn datgan eich bod wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys "i'w annog i ddiwygio'r Bil er mwyn galluogi'r Senedd a Gweinidogion Cymru i gymryd eu rôl briodol o fewn strwythurau llywodraethiant i sicrhau atebolrwydd democrataidd priodol." Pa welliannau penodol i'r Bil yr ydych wedi gofyn amdanynt?

5. Gellir newid cwmpas gweithgarwch y Banc, gan gynnwys y diffiniad o "seilwaith", drwy bwerau dirprwyedig a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol yn Senedd y DU. Ym mharagraff 49 o'r memorandwm, rydych yn datgan eich bod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Economaidd i'r Trysorlys "i ddadlau bod y Senedd, Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd yn arfer pwerau cyfatebol i bwerau ein cymheiriaid yn y DU".

i. A ydych wedi gofyn am welliannau i'r Bil a fyddai'n rhoi pwerau deddfwriaethol dirprwyedig uniongyrchol cyfatebol i Weinidogion Cymru, gan olygu y byddai'r Senedd yn gyfrifol am graffu ar y broses o arfer y pwerau hynny?

ii. A ydych wedi gofyn am welliannau i'r Bil a fyddai'n rhoi rôl ymgynghorol i Weinidogion Cymru cyn i Weinidogion y DU arfer eu pwerau dirprwyedig, sy'n golygu na fyddai rôl i'r Senedd o ran craffu ar y broses o arfer y pwerau hynny?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd